EISTEDDFOD YR URDD BRYCHEINIOG A MAESYFED 2018

Rhif 136 – Llefaru Unigol Bl 3 a 4 (D)
'Dysgu' – Gwion Hallam

Copi o'r gerdd ar gael o Adran yr Eisteddfod

Urdd

Dysgu

Dwi'm isio dysgu rhifo
a dysgu sut mae adio;
dwi isio dysgu dreifio bws
fel Mr Kirienko.

Dwi'm isio dysgu'r wyddor
a darllen drwy'r holl dymor;
dwi isio dysgu dreifio bws
sy'n chwyrnu fel hen dractor.

Dwi'm isio dysgu'r amser
bob munud tan ddydd Gwener;
dwi'n mynd i ddysgu dreifio bws –
wel . . . pan fydda i'n fwy o lawer.

Gwion Hallam